
# DYDDIAU SUL ARBENNIG SY'N YMWNEUD Â GOFALU AM DDAEAR DUW



Addoliad a Dysgeidiaeth

ECO CHURCH
AN A ROCHA UK PROJECT

BENEFACT TRUST

www.ecochurch.arocha.org.uk



Addoliad a Dysgeidiaeth

# Dyddiau Sul Arbennig

## Pam?

Pam ddylem ni ddathlu Dyddiau Sul arbennig sy'n canolbwyntio ar ofalu am greadigaeth Duw? Mae Cristnogion wedi dod yn fwy a mwy ymwybodol o'r argyfwng i'r amgylchedd ac wedi agor eu llygaid eto i'r ddiwinyddiaeth Gristnogol am y greadigaeth, ond nid yw pob un ohonom yn gyfarwydd â'r cysylltiadau rhwng ein ffydd Gristnogol a gofalu am ddaear Duw. Trwy sefydlu Dyddiau Sul arbennig sy'n canolbwyntio ar hynny, gallwch chi sicrhau bod gofalu am y greadigaeth yn dod yn rhan annatod o'ch rhaglen flynyddol, nid yn rhywbeth sy'n digwydd yn achlysurol yn unig. Efallai y gallech chi lansio rhaglen addysgu sy'n ymwneud â chyfiawnder i'r amgylchedd a/neu'r hinsawdd neu apêl elusennol? Efallai y gallech chi gynllunio nid yn unig i addoli Duw, ond integreiddio gweithgareddau cymdeithasol a chymunedol o amgylch y thema hefyd? Os bydd Dydd Sul penodol yn dod yn rhan reolaidd o'ch blwyddyn eglwys, bydd yn ennill momentwm a gallwch adeiladu ar ei ddylanwad.

Mae Duw nid yn unig yn gofalu am bobl, ond am bopeth y mae wedi ei greu. Mae hyn yn newyddion da i ni ac i'r ddaear gyfan; trwy ymroddi Dyddiau Sul i'r gwirionedd Cristnogol sylfaenol hwn, rydym yn dechrau cael dealltwriaeth ddyfnach o'r hyn mae'n ei olygu i 'ddaearu' teyrnas y nefoedd.

## Sut?

**Sul yr Hinsawdd**
Yn 2021, roedd menter Sul yr Hinsawdd yn galw ar bob eglwys leol drwy Brydain ac Iwerddon i gynnal gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd ar unrhyw ddydd Sul cyn COP26 (Tachwedd 2021). Mae cynnal Sul yr Hinsawdd bob blwyddyn yn ffordd wych o roi'r ffocws ar faterion algylcheddol a newis hinsawdd.

Er i'r ymgyrch orffen bellach, y weledigaeth oedd i adael trefniant parhaol ar gyfer y dyfodol lle mae gan filoedd o eglwysi well medrau a chyfryngau i ymdrin â'r mater critigol hwn yn rhan o'u cenhadaeth a'u disgyblaeth, ac i wneud cyfraniad sylweddol i ymdrechion y gymdeithas sifil i sicrhau bod y byd yn gweithredu'n ddigonol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, yn COP26. Mae amrywiaeth fawr o adnoddau ar gael, yn cynnwys cynlluniau gwasanaeth, cerddoriaeth, amlinelliad o bregethau a darlleniadau: [www.climatesunday.org/service-resources](www.climatesunday.org/service-resources)





# Dyddiau Sul Arbennig

Mae **Tymor y Creu** (neu **Ŵyl y Creu**) yn dod yn gyfnod hanfodol ym mlwyddyn yr eglwys pan fyddwn ni'n gallu archwilio thema Duw fel Creawdwr drwy ein haddoliad, ein haddysg, yr arferion sydd gennym, y rhoddi elusennol a wnawn, a mwy. Mae Tymor y Creu yn rhedeg o 1 Medi hyd 4 Hydref (diwrnod gwledd Sant Ffransis) a chafodd ei gyflwyno gan y diweddar Batriarch Eciwmenaidd Demetrios I yn 1989; cafodd ei fabwysiadu gan Churches Together ym Mhrydain ac Iwerddon yn 2008.

seasonofcreation.org/

Efallai fod yr adeg hon o'r flwyddyn yn cynnwys gwasanaethau Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn barod, felly efallai y byddai'n bosibl gwau Dyddiau Sul ychwanegol i mewn i ddatblygu'r thema ymhellach, neu efallai y gallech gynnwys ffocws ar gyfiawnder hinsawdd neu faterion amgylcheddol lleol eraill? Gallech chi annog eich aelodau i gerdded, seiclo neu rannu lifftiau i'r eglwys ar y dydd Sul hwnnw; gwahodd siaradwr arbennig; trefnu sesiwn godi sbwriel ar ôl yr eglwys; annog aelodau i rannu eu hawgrymiadau gorau ar gyfer gofalu am yr amgylchedd neu eu gwahodd i ddod â'u cwpanau eu hunain i'r eglwys i gael coffi. Trwy wneud hynny gallwch chi ddefnyddio'r Sul cyfan i addysgu ac ysbrydoli pobl, nid cynnal gwasanaeth addoli yn unig.

Mae'r **Grawys**, sy'n adeg o fyfyrio ac ymprydio, yn amser da i ddefnyddio'r Dyddiau Sul i ganolbwyntio ar effaith y newidiadau yr ydym yn eu gwneud. Mae llawer o adnoddau ar gael i helpu cynulleidfaoedd i feddwl yn ddyfnach am 40 diwrnod y Grawys. Yn 2020, lansiodd yr Archesgob Anglicanaidd Justin Welby ymgyrch 'Grawys Gwyrdd'. Dyma oedd '#*Live Lent: Care for God's Creation*', sef her 40 diwrnod sy'n eistedd ochr yn ochr â llyfr Ruth Valerio 'Saying Yes to Life' sy'n cynnwys heriau ymarferol fel ystyried ôl-troed carbon y pryd bwyd olaf a gawsoch chi neu faint o ddŵr a aeth i mewn i'r jîns rydych yn eu gwisgo. *Live Lent: Care for God's Creation*, Church House Publishing, 2019.



Addoliad a Dysgeidiaeth

# Dyddiau Sul Arbennig

## Defnyddiau darllen hirach ac adnoddau eraill

Mae newid hinsawdd yn cael effeithiau hirdymor ar iechyd meddwl pobl, ac mae geiriau fel 'galar hinsawdd' a 'phryder eco' yn ymadroddion cyffredin erbyn hyn. Gall Sul yr Hinsawdd eich helpu i ystyried sut i ymgysylltu â hyn ar ddydd Sul arbennig neu ar lefel fugeiliol: www.climatesunday.org/climate-and-pastoral-care

Mae gwahanol draddodiadau Cristnogol yn defnyddio dyddiadau gwahanol i ganolbwyntio ar ein perthynas â'r amgylchedd. Dyma rai i'n hysbrydoli:

- Mae Churches Together ym Mhrydain ac Iwerddon yn creu adnoddau ar gyfer Adeg y Creu bob blwyddyn (y pum wythnos o 1 Medi): ctbi.org.uk/category/spirituality-and-reflection/creation-time/
- Mae gan Green Christian nifer o adnoddau:
  greenchristian.org.uk/resources/worship-materials/
  greenchristian.org.uk/recommended-for-advent-and-lent/
- greeningthelectionary.net/ Ymateb diwinyddol i'r argyfwng ecolegol gyda myfyrio, gweddïau, emynau ac adnoddau eraill.

Mae hefyd nifer o sefydliadau seciwlar yn gweithio i amddiffyn y blaned. Dyma rai dyddiadau sy'n cael sylw yn y cyfryngau y gallech ystyried cysylltu â nhw ar y Dydd Sul agosaf:

- Mae'r **Wythnos Werdd** Fawr ym mis Mehefin, yn digwydd drwy'r DU gyfan ac mae'n annog cymunedau i ddiogelu lleoedd gwyrdd neu gynnal digwyddiadau i ymdrin â newid hinsawdd: greatbiggreenweek.com/
- Mae **Awr y Ddaear** yn annog pawb i ddiffodd eu goleuadau am awr ar y dydd Sadwrn olaf ym mis Mawrth i ddangos eu cefnogaeth i'r blaned: earthhour.org/
- Mae **Diwrnod y Ddaear** yn gweithio gyda 150,000 o bartneriaid o amgylch y byd ac yn cynnal Diwrnod y Ddaear yn flynyddol ar 22 Ebrill bob blwyddyn i addysgu a gweithredu er mwyn diogelu'r blaned: earthday.org/



Addoliad a Dysgeidiaeth

# Dyddiau Sul Arbennig

- Mae **Diwrnod Amgylchedd y Byd** yn dathlu'n flynyddol ar 5 Mehefin. Cafodd ei ddynodi'n wreiddiol gan y Cenhedloedd Unedig ac mae'n annog llywodraethau, busnesau a dinasyddion i fod yn weithredol o ran mynd i'r afael â materion amgylcheddol brys: worldenvironmentday.global/

## Astudiaethau achos

Tynnodd Esgobaeth Anglicanaidd Salisbury sylw eu cynulleidfaoedd at faterion amgylcheddol yn ystod y Grawys a'r Pasg gyda'r adnoddau hyn (sydd ar gael fel dogfen ar wahân yn yr adran hon):

- Rhannu ein stori: Adnodd y Grawys Esgobaeth Caersallog – 'Grawys yn yr awyr agored' – cwrs chwe wythnos yn dathlu gwahanol agwedd o natur bob wythnos, yn cynnwys coed, blodau, dŵr a phridd.
- Rhannu ein stori: Adnodd y Pasg Esgobaeth Caersallog – Mae 'Ffordd y Greadigaeth' yn cymryd y gwasanaeth 'Ffordd y Groes' Gwener y Groglith traddodiadol i'r awyr agored mewn fformat sy'n addas i blant a theuluoedd.

Mae A Rocha UK wedi paratoi adnoddau 'Step Outside' ar gyfer y Grawys a Thymor y Creu, gan gynnwys taith gerdded gweddi: arocha.org.uk/get-involved/engage-your-church/

Creodd Christ Church New Malden 'Ympryd Carbon' hwyliog y Grawys gyda gweithredoedd dyddiol i oedolion a phlant eu gwneud: ccnm.org/carbonfastforcreation

Mae Operation Noah wedi paratoi deunydd astudio 'Tenants of the King', i adlewyrchu ar yr hyn y mae Duw efallai yn dweud wrthym drwy'r argyfwng hinsawdd heddiw: operationnoah.org/tag/lent-resources-uk-2023/